

# Adroddiad gwrandawriad cyn penodi

Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd  
Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn  
Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Rhagfyr 2022



# 1. Cyflwyniad

## Gwrandawriadau cyn penodi

**1.** Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

## Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

**2.** Sefydlwyd y Comisiwn gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 y gwnaethom ni graffu arni fel Pwyllgor. Bydd y Comisiwn yn stiward cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.<sup>1</sup> Bydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwyllo a rheoleiddio ac ansawdd yr holl addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd yn dod â goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol at ei gilydd ar gyfer:

- Addysg uwch;
- Addysg bellach;
- Chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol;
- Prentisiaethau;
- Addysg i oedolion yn y gymuned;
- Ymchwil ac arloesi.

**3.** Disgwylir y bydd gan y Comisiwn gyllideb flynyddol o tua £800 miliwn, a dim ond y GIG sydd â chyllideb flynyddol fwy na hynny. Dyma fydd "un o'r cyllidebau uchaf i'w dyrannu i gorff

---

<sup>1</sup> [Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022](#)

---

hyd braich yng Nghymru". Disgwylir i'r Comisiwn fod yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2024, a disgwylir y bydd ganddo tua 160 o aelodau staff.<sup>2</sup>

4. Nododd Deddf 2022 11 o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu harfer ar draws ei holl swyddogaethau.



## Y rôl

5. Bydd deiliad y swydd yn ddirprwy i'r Cadeirydd a bydd yn cadeirio Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, bydd yn arwain ar gynghori'r Comisiwn ar arfer ei swyddogaethau ymchwil ac arloesi. Bydd yn atebol i'r Cadeirydd. Mae'r penodiad am gyfnod o bum mlynedd, ac mae'n swydd â thâl.

## 2. Y broses recriwtio

6. Hysbysebwyd y swydd am bedair wythnos ym mis Medi. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cais, yr amserlen recriwtio, gwybodaeth am y broses recriwtio (gan gynnwys y gallai fod gwrandawriad cyn penodi), cefndir

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022.

i'r rôl, disgrifiad o'r rôl (gweler Atodiad A), manyleb y person (gweler Atodiad B) a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r rôl.

**7.** Roedd ymgeiswyr yn gwneud cais drwy wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Daeth 25 o geisiadau i law. Fe wnaeth Ogders, cwmni chwilio gweithredol, ymgymryd â phroses sifftio hir ym mis Hydref 2022 i argymell ymgeiswyr.

**8.** Yn dilyn y sifft hon gan Ogders, anfonwyd adroddiad at y panel asesu ymgynghorol o'r holl ymgeiswyr i'w galluogi i sifftio a chyflwyno eu hargymhellion. Roedd y panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr allanol. Fe wnaeth y panel argymell 7 ymgeisydd i gael eu gwahodd i ddod i gyfweiliad.

**9.** Cafodd 7 ymgeisydd eu cyfweld ym mis Tachwedd 2022 gan yr un panel a oedd wedi ymgymryd â'r sifft. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau eithriadol ac annisgwyl, nid oedd yr aelod annibynnol o'r panel yn gallu cymryd rhan yn un o'r cyfweiliadau. Dywedodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru y byddai'r panel, hyd yn oed gydag absenoldeb yr aelod hwn, yn dal i feddu ar ehangder o brofiad, gan gynnwys annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cytunodd y panel fod pedwar ymgeisydd y gellir eu penodi.

**10.** Cadarnhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mai David Sweeney oedd yr ymgeisydd a ffefrir ganddo.

### 3. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru: David Sweeney

**11.** Mae swydd bresennol David Sweeney ym Mhrifysgol Birmingham, fel Athro Ymarfer Polisi Ymchwil. (Penodiad rhan-amser diweddar yw hwn.) Tan yn ddiweddar, David Sweeney oedd Cadeirydd Gweithredol Research England, a'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer UKRI. Cyn hyn, treuliodd 10 mlynedd yn y Cyngor Cyllido Addysg Uwch fel y Cyfarwyddwr Ymchwil, Arloesedd a Sgiliau (Cyfnewidfa Ymchwil, Addysg a Gwybodaeth o 2014).

### 4. Y gwrandawriad cyn penodi

#### Cyn y gwrandawriad

**12.** Rhoddodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru y canlynol i'r Pwyllgor cyn y gwrandawriad:

- CV a datganiad personol David Sweeney;
- Briff yn crynhoi'r broses recriwtio ac yn nodi data amrywiaeth y 25 o ymgeiswyr yn y cam gwneud cais, y 7 a gyrhaeddodd y rhestr fer ac a gafodd gyfweiliad a'r pedwar y gellid eu penodi.
- Copi o'r pecyn gwybodaeth a ddarparwyd i ymgeiswyr pan hysbysebwyd y swydd.

**13.** Dosbarthwyd y dogfennau hyn i aelodau'r Pwyllgor fel papurau preifat cyn y gwrandawriad.

**14.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i David Sweeney lenwi holiadur byr cyn y gwrandawriad cyn penodi i ddarparu fframwaith ar gyfer cwestiynau aelodau'r Pwyllgor. Mae'r cwestiynau hyn, ac ymatebion David, wedi'u nodi yn Atodiad C.

## **Y gwrandawriad**

**15.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawriadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**16.** Yn ystod y gwrandawriad, a barhaodd oddeutu 45 munud, gofynnwyd ystod o gwestiynau i David Sweeney ynghylch sut y mae David yn bwriadu cyflawni rôl Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawriad ar gael ar-lein.<sup>3</sup>

**17.** Roedd ein sesiwn yn ymdrin â:

- sut y bydd David yn defnyddio ei sgiliau a'i brofiad blaenorol yn y rôl;
- sut y bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid, y Senedd a'r gymuned ymchwil ehangach;
- sut y gellir asesu llwyddiant y Comisiwn;
- y cyd-destun sy'n newid yn barhaus lle mae ymchwil ac arloesedd yn cael ei gyflawni, yn enwedig y berthynas sy'n newid rhwng y DU a'r UE; a'r heriau o ran ymchwil cyfrwng Cymraeg.

---

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Trawsgrifiad y cyfarfod, 15 Rhagfyr 2022

---

## 5. Safbwynt y Pwyllgor

### Y broses benodiadau cyhoeddus

**18.** Rydym yn parhau i fod ag amheumon a phryderon am elfennau o'r broses benodiadau cyhoeddus, ac yn benodol rôl y Senedd. Fe wnaethom nodi rhai o'r pryderon hyn fel rhan o'n hadroddiad ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru.<sup>4</sup> Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wrthi'n edrych ar y broses Benodiadau Cyhoeddus ar hyn o bryd. Byddwn yn tynnu ar ein profiadau o'r gwrandawriad cyn penodi hwn, a'r lleill yr ydym wedi'u cynnal wrth baratoi ein cyflwyniad. Yn ogystal â'r materion a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol ar wrandawriad cyn penodi'r Comisiynydd Plant, byddwn hefyd yn tynnu sylw at ein barn am yr angen i apwyntiadau fod yn amhleidiol a'r angen i sicrhau bod y broses yn lliniaru unrhyw ragfarn anymwybodol. Credwn fod yr ymchwiliad hwn yn amserol a bydd yn bwysig wrth geisio nodi sut y gellir cryfhau'r broses.

### Yr ymgeisydd

**Casgliad 1.** Ni welwn unrhyw reswm pam na ddylid cymeradwyo penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yr Athro David Sweeney ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

**19.** Fel y nodwyd ym mharagraff 17, fe wnaethom drafod amrywiaeth o faterion gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Hoffem dynnu sylw yn arbennig at ein trafodaethau ynghylch ymchwil ac arloesedd, y mae llawer ohono'n arwain y byd. Mae ymchwil cyfrwng Cymraeg yn rhan hanfodol o'r dirwedd hon, ac mae'n bwysig bod y Dirprwy Gadeirydd yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesedd, yn deall hyn, ac yn sicrhau bod y materion penodol sy'n ymwneud ag ymchwil cyfrwng Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Comisiwn.

**20.** Fe wnaethom gynnal y gwrandawriad cyn penodi hwn ar y cyd â'r gwrandawriad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn. Nodwyd bod y ddau ymgeisydd sy'n cael eu ffafrio ar gyfer pob swydd yn dod yn bennaf o gefndir Addysg Uwch. O ystyried ehangder cylch gwaith y Comisiwn mae'n anffodus nad oes ganddynt brofiad ar y cyd o'r sectorau prentisiaethau a dysgu yn y gwaith; addysg i oedolion yn y gymuned; chweched dosbarth; a darpariaeth ac ymchwil cyfrwng Cymraeg. Nid beirniadaeth o unrhyw un o'r ymgeiswyr unigol oedd â sgiliau a

---

<sup>4</sup> Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad gwrandawriad cyn penodi: Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru, Rhagfyr 2021

---

phrofiad perthnasol ar sail unigol yw hyn, ond mwy i nodi ein siom nad yw cymysgedd cefndiroedd y ddau benodiad yn rhoi effaith i ehangder y sector. Yn yr un modd, nodwn nad yw'r un o'r ymgeiswyr yn Gymry Cymraeg a byddem yn eu hannog i ddysgu Cymraeg. Rydym hefyd wedi nodi'r arsylwadau hyn yn yr adroddiad ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y Cadeirydd.

## Atodiad A: Disgrifiad rôl Dirprwy Gadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

### Rôl a chyfrifoldebau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadeirio'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi ac yn dirprwyo ar ran cadeirydd Bwrdd y Comisiwn. Fel Cadeirydd y Pwyllgor, bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o gynghori'r Comisiwn ynghylch sut i arfer ei swyddogaethau ymchwil ac arloesi.

Bydd Dirprwy Gadeirydd Bwrdd y Comisiwn yn cyfrannu at y trefniadau pontio sydd eu hangen er mwyn sefydlu'r corff newydd erbyn Ebrill 2024 fan bellaf.

Bydd yn atebol i'r Cadeirydd, ac yn gyfrifol am lywio penderfyniadau a'r hyn a gyflawnir mewn perthynas â sefydlu'r Comisiwn. Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn sicrhau bod cyngor awdurdodol ac amserol yn cael ei roi i Weinidogion Llywodraeth Cymru drwy swyddogion, a bydd yn rhoi adborth i'r sectorau.

Bydd deiliad y swydd:

- Yn arwain y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi o ran pennu cyfeiriad strategol swyddogaethau ymchwil ac arloesi'r Comisiwn
- Yn cadeirio a hwyluso cyfarfodydd y Pwyllgor, penderfynu ar yr agenda a chymeradwyo'r cofnodion cyn iddynt gael eu rhannu â'r aelodau
- Yn sicrhau bod busnes y Pwyllgor yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol
- Yn annog pob aelod o'r Pwyllgor i gydweithio, a cheisio dod i gonsensws
- Yn gweithredu'n deg ac yn ddiuedd bob amser ac er budd y Comisiwn, gan barchu cyfrinachedd fel y bo'n briodol
- Yn sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer y Pwyllgor yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar y Comisiwn drwy Statud
- Yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu o fewn y cylch gorchwyl y cytunwyd arno
- Yn sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei nodi a'i reoli'n briodol er mwyn sicrhau uniondeb y Pwyllgor bob amser



- Yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian; sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar y corff drwy Statud
- Yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd i hwyluso cyfarfodydd Bwrdd y Comisiwn, penderfynu ar yr agenda a chymeradwyo'r cofnodion
- Yn cefnogi'r Cadeirydd i arwain Bwrdd y Comisiwn o ran pennu cyfeiriad strategol y Comisiwn ac asesu a gwerthuso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth fusnes, cynlluniau ac amcanion perfformiad y sefydliad, yn ôl yr angen
- Yn cyflawni'r rôl allweddol o sicrhau bod gan holl aelodau'r Bwrdd rolau a chyfrifoldebau clir o ran y broses bontio i sefydlu'r Comisiwn
  - Yn cyfrannu at asesu gweledigaeth, cenhadaeth a nodau'r Comisiwn
  - Yn meithrin perthynas gydag arweinwyr y sector
  - Yn darparu cynrychiolaeth ar gyfer prosiectau ar lefel uwch, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

## Atodiad B: Manyleb y person, Dirprwy Gadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

### Manyleb y Person – Meini Prawf Hanfodol

- Arweinydd a rheolwr ar lefel uwch sy'n uchel ei barch ac yn ysbrydoli eraill, ac sydd â phrofiad o hyrwyddo ymchwil ac arloesi
- Dealltwriaeth o amgylchedd ymchwil y sector addysg uwch, y trydydd sector neu'r sector preifat yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth aeddfed o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Record gwych o ysbrydoli ac ysgogi rhanddeiliaid sy'n dangos eich bod yn gweithio mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr staff
- Record o reoli cydberthnasau cymhleth a heriol yn llwyddiannus, gan gynnig cymorth priodol yn ôl yr angen a rheoli perfformiad yn effeithiol
- Y gallu i ddeall ymrwymadau rôl gyhoeddus, fel y'u diffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan
- Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl
- Y gallu i herio meddylfryd a phrofi barn, gyda pharodrwydd i gael eich herio, ac annog trafodaeth agored er mwyn dod i benderfyniadau gwell.

### Dymunol

- Profiad o weithio ar gyllid a swyddogaethau cyfnewid gwybodaeth a pholisi ymchwil mewn prifysgol
- Profiad o gyllid datblygu ymchwil ac arloesi, ac o rannu darpariaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes gennych sgiliau o'r fath, dylech fod yn barod i wneud ymrwymiad i ddysgu ar ôl cael eich penodi. Darperir hyfforddiant, gan gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant unigol.

## Atodiad C: Holiadur wedi'i gwblhau a gafodd ei ddychwelyd gan David Sweeney cyn y gwrandawriad cyn penodi (Saesneg yn unig)

What skills and experience make you well-suited for the role?

- 1) I have been at the heart of national research policy in the UK for 14 years, designing and implementing assessments systems, creating and implementing new funding schemes, supporting Ministers in the development and implementation of policy and having a sustained engagement with all the actors in the research landscape. Internationally I have worked with governments and research systems in over 20 countries on policy issues and been an international leader in open science and research assessment.
- 2) Since 2016 I have been directly responsible for setting up a new agency which largely had the responsibilities which CTER will have in the research and knowledge exchange space. Alongside that I have been at the heart of setting up the larger agency that is UKRI. Those two activities, including bringing together civil servants and arms-length body staff, address many of the challenges of setting up CTER.
- 3) I have worked with Welsh stakeholders including HEFCW (including frequently observing the Board), the Chief Scientific Advisor and several universities at senior level. I have also worked closely with the Scottish Funding Council over many years (including Board attendance)
- 4) Before working in HEFCE and then as a ministerial appointee in my previous post I was the Vice-Principal (Research) at Royal Holloway, University of London and worked in the university sector for 18 years.
- 5) Before that I worked in Research Council institutes, including at what was then the Institute for Grassland and Environment Research at Plas Gogerddan
- 6) In all these posts I have deployed skills in leadership, governance, research policy, and sector and government engagement. I have also worked closely with business and industry to understand the demands on the research system from society more generally. More recently I have led for UKRI on place-based impacts from research activity.

What do you think will be the key challenges you will need to address in terms of establishing the Commission's Research and Innovation functions?

- 1) The primary challenge is to take the necessary steps to ensure continuity of activity in the transition from HEFCW to CTER.
- 2) Noting that most areas of funding body activity are demanding, whether working in a small sector or a large sector, there will be particular challenges in retaining the skills

required to ensure government accountability for investment in research and knowledge exchange.

- 3) Most critically it is a challenge to identify where skills will be lost in transition and then to identify alternative ways of developing skills, noting the particular problem (very familiar to me) that small agencies generally have little cover in key areas.
- 4) A second challenge is establish how, with engagement with the Welsh Government, CTER can support Wales, and Welsh research organisations, in a changing UK, European and Global research landscape.
- 5) Bringing together Further Education, Higher Education and Research directions in a single body requires balancing different priorities in a sensitive and constructive way, as I have observed in Scotland.

